Mae **Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru** yn un o blith 47 o Ymddiriedolaethau Natur ledled y DG ac yn un o blith y 6 Ymddiriedolaeth Natur yng Nghymru. Mae'r Ymddiriedolaeth yn elusen gofrestredig, yn dibynnu ar gefnogaeth ein haelodau a rhoddion.

Mae **Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru** yn:

- buddsoddi yn y dyfodol drwy helpu pobl o bob oed i werthfawrogi a deall bywyd gwyllt yn well
- prynu a rheoli gwarchodfeydd natur
- ymgymryd â phrosiectau sydd o fudd i fywyd gwyllt mewn trefi ac yng nghefn gwlad
- herio datblygiadau sy'n bygwth cynefinoedd bywyd gwyllt
- gweithio gyda'r cyhoedd, cymunedau, perchnogion tir, cynghorau lleol ac eraill i warchod bywyd gwyllt ar gyfer y dyfodol

Os hoffech helpu i gefngoi cadwraeth bywyd gwyllt drwy ddod yn aelod neu'n wirfoddolwr, neu os hoffech wybodaeth am warchodfeydd natur lleol, cysylltwch â:


**Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru**

**Pencadlys ac Aelodaeth**
376 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd LL57 1YE
**01248 351541**
**e-bost: nwwt@cix.co.uk**

**Swyddfa G.Dd. Cymru**
Parc Gwledig Loggerheads
ger Yr Wyddgrug
Sir Ddinbych CH7 5LH
**01352 810469**
**e-bost: nwwte@cix.co.uk**

**www.wildlifetrust.org.uk/northwales**


The **North Wales Wildlife Trust** is one of 47 Wildlife Trusts across the UK and one of 6 Welsh Wildlife Trusts.
We are a registered charity, dependent on the support of our members and donations.

The **North Wales Wildlife Trust**


- invests in the future by helping people of all ages to gain a greater appreciation and understanding of wildlife
- acquires and manages nature reserves
- undertakes projects to benefit wildlife in towns and countryside
- challenges developments which threaten wildlife habitats
- works with the public, communities, landowners, local councils and others to protect wildlife for the future

If you would like to help support wildlife conservation by becoming a member or volunteer, or would like information about local nature reserves, please contact:


**North Wales Wildlife Trust**

**HQ & Membership**
376 High Street
Bangor
Gwynedd LL57 1YE
**01248 351541**
**email: nwwt@cix.co.uk**

**North East Wales Office**
Loggerheads Country Park
nr. Mold
Denbighshire CH7 5LH
**01352 810469**
**email: nwwte@cix.co.uk**


## Ymweld â'r Warchodfa

Gellir cyrraedd Y Spinnies, Aberogwen (SH 613 721) o Fangor drwy ddilyn ffordd Tal-y-Bont o'r cylchfan ar yr A5122 ger mynedfa Castell Penrhyn. Ceir arwyddbost ar gyfer y ffordd sy'n arwain i'r warchodfa ar yr ochr chwith, wedi 1km. Gellir cyrraedd y warchodfa o ffordd yng Nghyffordd 12 yr A55 hefyd. Mae'r ffordd fechan yn arwain at faes parcio. Cerddwch yn ôl i lawr y ffordd am y mynedfeydd i'r warchodfa. Byddwch yn ofalus wrth wneud hyn.

Mae modd cyrraedd y warchodfa o'r maes parcio drwy gerdded ar hyd y traeth o ro mân. Mae hwn yn llwybr anwastad ac anodd, ac mae'r llanw'n effeithio arno. Gall defnyddio'r llwybr hwn darfu ar adar ar yr aber, ac effeithio ar fwynhad eraill o'r safle.

Ceir safle hebrwng ym mhrif fynedfa'r warchodfa i ymwelwyr llai abl, ond dylid bod yn ofalus yn y fan yma, oherwydd mae'n cael ei ddefnyddio fel safle troi gan gerbydau fferm.

## Visiting the Reserve

The Spinnies, Aberogwen (SH 613 721) can be approached from Bangor by following the Tal-y-Bont road from the roundabout on the A5122 near the Penrhyn Castle entrance. The road to the reserve is signposted on the left hand side after 1km. The reserve can also be approached from a road at Junction 12 off the A55. The minor road leads to a car park. Walk back down the road towards the entrances to the reserve. Please use caution in doing so.

It is possible to access the reserve from the car park by walking along the shingle beach. This is uneven, difficult walking and affected by tides. Using this route can disturb birds on the estuary and affect the enjoyment of the site by others.

There is a drop-off point at the main reserve entrance for less-abled visitors. However caution should be used as this area is used as a turning area by farm vehicles.

*Ymddiriedolaeth Natur*
**Gogledd Cymru**

**North Wales**
*Wildlife Trust*

YMDDIRIEDOLAETHAU natur CYMRU WILDLIFE TRUSTS WALES

# Gwarchodfa Natur *Spinnies Aberogwen* Nature Reserve



Gwarchod **Natur** ar gyfer y Dyfodol
Protecting **Wildlife** for the Future

## Gwarchodfa Natur

# *Spinnies Aberogwen*

## Nature Reserve

### Ceir dwy fynedfa

Gan gerdded rhyw 150m yn ôl i fyny'r ffordd o'r maes parcio, ceir giât i Guddfan Glas y Dorlan. Mae'r guddfan yn rhyw 50m ymhellach. Ceir mynediad i'r guddfan drwy gyfrwng stepiau gyda rheilen i gydio ynddi.

Mae'r ail a'r brif fynedfa yn 150m ymhellach ar hyd y ffordd. Mae'r brif guddfan yn rhyw 200m i mewn ac mae modd defnyddio cadeiriau olwyn ar y safle yma. Mae graean ar y ddau lwybr ac maent yn wastad. Ni cheir mynediad i ardaloedd eraill o'r warchodfa, ar wahân i laswelltir bychan gerllaw'r traeth. Nid oes arwyneb ar y llwybrau troed yn y fan yma, ond maent yn wastad a cheir mainc yma hefyd.




### There are two entrances

Walking roughly 150m back up the road from the car park, there is a gate to the Glas-y-Dorlan (Kingfisher) Hide. The hide is about 50m further. Access to the hide is via steps with a hand-rail.

The second and main entrance is a further 150m along the road. The main hide is about 200m in and is designed for wheelchair use. Both paths are gravelled and even. There is no access to other areas of the reserve other than a small grassland area adjacent to the beach. The paths here are unsurfaced but level and there is also a bench.

**Cyllidwyd y daflen hon gan Ymddiriedolaeth Cefn Gwlad Colin Reed.**
**This leaflet was funded by the Colin Reed Countryside Trust.**

Cynllun gan Lin Cummins 07792 535317 Lluniau gan Philip Snow Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%
Design by Lin Cummins 07792 535317 Illustrations by Philip Snow Printed on 100% recycled paper

## Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

### Gwarchodfa Natur

# *Spinnies Aberogwen*

Rheolir Gwarchodfa Natur Y Spinnies, Aberogwen (4 hectar) gan wirfoddolwyr a staff Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Maent yn cydweithio i gynnal amgylchedd amrywiol sy'n gartref i lawer o blanhigion ac anifeiliaid, ac yn ddelfrydol ar gyfer gwylio adar.

Yng nghanol y coetir bychan, ceir cyfres o byllau a lagŵn yn darparu cysgod a bwyd i lawer o rywogaethau o adar gwyllt ac adar rhydio wrth iddynt fudo yn ystod yr hydref a'r gwanwyn. Mae'r warchodfa yn union gerllaw aber yr Afon Ogwen ac ardal eang o fflatiau llaid llanwol.



## Hanes

Ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, prynwyd tir o amgylch aber yr Afon Ogwen gan Stad y Penrhyn ac fe'i amgaewyd gan wal uchel, sydd i'w gweld o hyd ar derfyn gorllewinol y warchodfa. Drwy ddargyfeirio a throi Afon Ogwen yn gamlas mewn rhan, cafwyd gwared ar dro mawr yn yr afon gerllaw'r arfordir. Mae'r tro hwn yn rhan o lagŵn y Spinnies yn Aberogwen yn awr.

## Y Lagŵn

Mae'r Spinnies, Aberogwen, yn un o warchodfeydd mwyaf poblogaidd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, gyda mwy na 185 o rywogaethau o adar i'w gweld yn y warchodfa neu o'i hamgylch. Gydag amrywiaeth o gynefinoedd, a'r llanw a thrai cyson, gall ddenu rhywogaethau cwbl ryfeddol. Ceir darpariaeth dda iawn ar gyfer gwylwyr adar yma, gan fod dwy guddfan i'w cael yn y warchodfa, gydag un yn edrych dros y lagŵn a'r aber.

Mae'r clystyrau tal a gosgeiddig o gawn cyffredin o amgylch y lagŵn yn darparu cysgod trwchus a safleoedd nythu delfrydol ar gyfer rhywogaethau'n magu, fel yr Iâr Ddŵr, yr Hwyaden Wyllt a Thelor yr Hesg. Mae'r Wyach Fach yn bwydo yn y lagŵn, gan ddeifio am bysgod bychain ac infertebrata, ac efallai y gwelwch y Gïach Gyffredin yn chwilio am bryfed genwair, cramenogion neu folysgiaid yn y llaid. Mae terfynau'r lagŵn yn lle rhagorol hefyd i wylio'r Crëyr Glas a'r Crëyr Bach.

Rhwng misoedd Medi a Mawrth, bydd y Glas y Dorlan llachar yn olygfa gyfarwydd o amgylch y lagŵn, yn chwilio am ysglyfaeth. Yn cadw cwmni iddo bydd y Gorhwyaden, y Chwiwell a'r Pibydd Coeswerdd.

Gelwir yr aber a'r fflatiau llaid gerllaw yn Draeth Lafan. Mae'r safle yma'n bwysig yn rhyngwladol am fod nifer fawr o hwyaid ac adar rhydio'n treulio rhan o'u blwyddyn yma.

Rheolir Traeth Lafan gan Gyngor Gwynedd fel Gwarchodfa Natur Leol.

## O Amgylch y Warchodfa

Tra'n cerdded ar hyd y llwybrau, cadwch lygad am y Caldrist Llydanddail, tegeirian prin iawn yn lleol, a Rhedyn Tafod yr Hydd a'r Marchredyn Gwryw, sy'n tyfu mewn mannau cysgodol. Ar ganghennau'r coed, mae'r Siff-Saff a Thelor yr Helyg ymhlith rhai o adar mudol y gwanwyn sydd i'w clywed yn glir. Ceir gwahanol fathau o ffwng lliwgar yma hefyd, gyda Chwpan bychan Robin Goch yn gyffredin yn ystod y gaeaf.

Yn ystod mis Chwefror, gwelir carped gwyn a gwyrdd o Eirlysiau a Bresych y Cŵn yn y warchodfa ac, yn yr haf, mae'r Danadl Poethion yn darparu bwyd i lindys glöynnod byw fel y Fantell Goch a Brith y Coed. Hefyd, gwelir y Glesyn Cyffredin, Boneddiges y Wig a'r Copor Bach ar y glaswelltir bychan agored gerllaw'r traeth.

Beth am gymryd seibiant am rai munudau ar un o feinciau'r llwybr troed, i fwynhau synau a golygfeydd y warchodfa?



North Wales Wildlife Trust

# *Spinnies Aberogwen*

## Nature Reserve

The Spinnies, Aberogwen Nature Reserve (4 hectares) is managed by volunteers and staff from the North Wales Wildlife Trust. They work together to maintain a varied environment which supports many plants and animals and is ideal for bird-watching.

Set amid a small woodland, a series of ponds and a lagoon provide shelter and food for many species of wildfowl and waders during the autumn and spring migrations. The reserve is immediately adjacent to the estuary of the Afon Ogwen and a large area of tidal mudflats.

### History

At the beginning of the nineteenth century land around the Ogwen estuary was acquired by Penrhyn Estate and enclosed by a high wall which still stands on the western boundary of the reserve. The diversion and canalisation of the River Ogwen cut off a sharp meander of the river near the coast. This meander is now part of the Spinnies, Aberogwen lagoon.

### The Lagoon

The Spinnies, Aberogwen is one of North Wales Wildlife Trust's most popular reserves with over 185 species of bird being seen on or around the reserve. With a range of habitats and the constant ebb and flow of the tides, it can attract some amazing species. Birdwatchers are well catered for as there are two hides on the reserve, one of which overlooks the lagoon and the estuary.

The tall, graceful stands of common reed around the lagoon provide dense cover and sheltered nest sites for breeding species such as the Moorhen, Mallard and Sedge Warbler. Little Grebe feed on the lagoon, diving for small fish and invertebrates, and Snipe may be seen probing the mud for worms, crustaceans or molluscs. The lagoon margins are also an excellent place to watch the Grey Heron and the white Little Egret.

Between September and March the brightly coloured Kingfisher will be a familiar sight around the lagoon in search of prey, along with Teal, Widgeon and Greenshank.

The adjacent estuary and mudflats are known as Traeth Lafan. The area is internationally important for the large number of ducks and waders which spend part of the year here.

Traeth Lafan is managed by Gwynedd Council as a Local Nature Reserve.

### Around the Reserve

Whilst walking the paths, be sure to keep an eye out for Broad Leaved Helleborine, a locally rare orchid, along with Hart's Tongue and Male ferns growing in shady spots. Up in the trees, Chiffchaff and Willow Warbler are just some of the spring migrants that can be heard. Different types of brightly coloured fungus can also be seen, with the small Scarlet Elf Cup being commonplace during winter.

In February a white and green carpet of Snowdrops and Dog's Mercury emerges, whilst in summer the Stinging Nettle provides food for caterpillars such as the Red Admiral and Speckled Wood. Holly Blue, Orange Tip and Small Copper butterflies can all be seen on the small open grassland area adjacent to the beach.

Why not stop for a few moments at one of the pathway benches to enjoy the sounds and sights of the reserve?

